# PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 25 Gorffennaf 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir** |
| | Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Margaret M Roberts |
| | **Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned** |
| | Mr Gordon Warren |
| **WRTH LAW:** | Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Aled M Jones |

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Bu'r Cynghorydd Dylan Rees ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag eitem 4 ar yr agenda. Nododd ei fod yn adnabod un o'r ymgeiswyr gan ei fod wedi eistedd gydag ef fel aelod ar y Cyngor Iechyd Cymunedol.

**2. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod blaenorol Panel Dethol y Pwyllgor Safonau, a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2023, fel cofnod cywir.

**3. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei ddatgelu fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."

**4. PENODI AELOD ANNIBYNNOL I SWYDD WAG AR Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar y broses ddethol ar gyfer penodi Aelod Annibynnol newydd ar y Pwyllgor Safonau.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) yn dilyn cyfarfod y Panel Dethol a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2023 bod y swydd wag ar gyfer Aelod Annibynnol wedi'i hysbysebu ar wefan y Cyngor, Twitter, Facebook, y Bangor and Anglesey Mail ac yn y Daily Post. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau oedd 5:00pm ar 7 Gorffennaf 2023.

Ystyriodd y Panel y ceisiadau a dderbyniwyd yn erbyn y meini prawf gosod a oedd wedi'i gytuno arno ymlaen llaw fel y nodwyd yn yr adroddiad a hynny er mwyn llunio rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld.

Mewn perthynas â'r cwestiynau cyfweliad (Atodiad 4) fe gytunwyd y dylid rhoi Cwestiwn 7 cyn Cwestiwn 8 ar y daflen asesu cyfweliad.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y Panel Dethol wedi ystyried pob cais (a oedd wedi eu cynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad) a lluniwyd rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld.**
- **Cytunodd y Panel Dethol ar yr ohebiaeth arfaethedig i'w hanfonat yr ymgeiswyr a lwyddodd / na lwyddodd i dderbyn cyfweliad, fel y nodwyd yn Atodiad 3 o'r adroddiad.**
- **Trafododd y Panel Dethol y broses gyfweld a chadarnhawyd y cwestiynau a fyddai'n cael eu gofyn ynghyd â'r drefn, y sgorio a'r matrics sgorio fel y nodwyd yn Atodiad 4 o'r adroddiad.**
- **Nodwyd mai'r cyfnod mewn perthynas â Chwestiwn 7 o Atodiad 4 yw 6 mis.**
- **Penderfynwyd derbyn y llythyrau arfaethedig i'w hanfon at ymgeiswyr llwyddiannus/aflwyddiannus yn dilyn y cyfweliadau fel y nodwyd yn Atodiadau 5.1 a 5.2.**
- **Cytunodd y Panel y dylid gwahodd yr ymgeiswyr a oedd wedi eu rhoi ar y rhestr fer am gyfweliad ar ddyddiad ac amser i'w gadarnhau.**
- **Cytunodd y Panel na fydd cais am eirda yn cael ei wneud tan ar ôl y broses ddethol.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2:25 pm

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**